# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 7 RHAGFYR 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cadeirydd P. Downing (Is-gadeirydd) yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C. E. Lloyd | J. Newbury | M. Thomas |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
P Rees

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Debbie Smith | Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth |
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Pamela Milford | Uwch-gyfreithiwr |
| Lynne Miller | Rheolwr Pensiynau |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R C Stewart a/ac D G Sullivan

28 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd P. Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn gweithio i'r cyngor ac yn cyfrannu at y Gronfa Bensiwn.

**NODWYD** bod y Cynghorydd P. Downing wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau yn yr achos hwn.

Y Cynghorydd C. E. Lloyd - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy nhad yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd J. Newbury - rwy'n derbyn pensiwn y cyngor a drosglwyddwyd i fi'n dilyn marwolaeth fy ngwraig - personol.

Y Cynghorydd M. Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - rwyf i a'm gwraig yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**NODWYD** bod y Cynghorydd M. Thomas wedi derbyn esgusodeb gan y Pwyllgor Safonau o ran ei wraig.

## 29 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Arbennig y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf a 18 Hydref a chyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 15 Medi 2016 fel cofnodion cywir.

## 30 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015-16.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2015/16 i'w gymeradwyo.

Roedd Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2015/16 yn Atodiad 1.

Amlygwyd bod yr adroddiad hefyd yn cynnwys gweithgarwch y Bwrdd Pensiwn Lleol.

Gwnaeth y pwyllgor sylw bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio'r cyfrifon a chadarnhau nad oedd materion arwyddocaol i adrodd amdanynt.

Diolchodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol i'r swyddogion yn yr Adran Cyllid am eu gwaith wrth lunio'r adroddiad blynyddol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

## 31 AILSTRWYTHURO'R TÎM GWEINYDDU PENSIYNAU.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol a'r Prif Reolwr Pensiynau adroddiad a oedd yn ceisio cyllid i ailstrwythuro'r Is-Adran Bensiynau.

Amlinellodd yr adroddiad yr adolygiad blaenorol a gynhaliwyd yn 2009, dadansoddiad bwlch, ffigurau meincnodi a roddodd fanylion am Gronfeydd Pensiwn eraill Cymru a strwythur arfaethedig yr Is-adran Bensiynau.

Esboniwyd y byddai disgrifiadau swydd yn cael eu hadolygu ac y byddai'r graddau'n cael eu cadarnhau gan y Tîm Gwerthuso Swyddi os byddai'r cyllid yn cael ei gymeradwyo. Yna, byddai ymgynghoriad staff ac ymarfer gosod a chydweddu'n cael eu cyflawni gan staff presennol yr Is-adran Bensiynau. Byddai'r staff priodol yn cael eu cydweddu â swyddi a byddai swyddi gwag yn cael eu clustnodi i'r staff pensiynau presennol a byddai cyfweliadau cystadleuol yn cael eu trefnu. Wedyn, cysylltir â'r Adran AD ynghylch recriwtio/adleoli ar gyfer y swyddi gwag sy'n weddill.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau ynghylch niferoedd y staff pensiynau, y costau staffio a restrwyd yn yr adroddiad blynyddol, sut byddai'r strwythur arfaethedig yn cynorthwyo'r llwyth gwaith ac yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cyllid i ailstrwythuro'r Is-Adran Bensiynau.

## 32 CYNGOR PROFFESIYNOL.

**NODWYD** y gadawodd Mr Noel Mills a Mr Valentine Furniss y cyfarfod cyn trafod yr eitem hon.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer caffael a phenodi ymgynghorydd buddsoddi i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Amlinellodd yr adroddiad y cyngor proffesiynol a roddwyd o'r blaen gan ymgynghorwyr annibynnol i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ac amlygu tirwedd llywodraethu newidiol CPLIL, yn enwedig ynghylch cyflwyno Cronfa Buddsoddi Cymru Gyfan o 2018.

Ychwanegwyd bod gwasanaethau'r ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol wedi gwasanaethu'r gronfa'n dda hyd yn hyn. Fodd bynnag, gyda'r beichiau ychwanegol a'r dirwedd newidiol wedi'u hamlinellu, ystyriwyd ei bod yn briodol adolygu'r gofynion ymgynghorol angenrheidiol i ddatblygu gwaith Pwyllgor y Gronfa Bensiwn. Gwnaed cymariaethau â chronfeydd eraill yng Nghymru, yn ogystal â theilyngdod cyflogi ymgynghoriaeth fuddsoddi.

Cynigiwyd cyflogi ymgynghoriaeth fuddsoddi ar unwaith i weithio gyda'r ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol presennol er mwyn galluogi trosglwyddiad priodol, gyda golwg ar leihau nifer yr ymgynghorwyr allanol o 2 i 1 dros dro, cyn rhoi Cronfa Cymru Gyfan ar waith ym mis Ebrill 2018. Argymhellwyd cadw gwasanaethau un o'r ymgynghorwyr buddsoddi presennol i sicrhau parhad ac archwiliad a deiliadaeth briodol gyda'r strategaeth a'r trefniadau buddsoddi presennol ac ar gyfer y dyfodol. Ychwanegwyd y rhoddodd hyn her briodol a gwrthddywediad i farn/argymhellion a gyflwynwyd. Byddai'r trefniadau parhaol newydd yn cynnwys 1 Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol ac 1 Ymgynghoriaeth Fuddsoddi cyn i Gronfa Cymru Gyfan ddod ar waith ym mis Ebrill 2018.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau ynghylch costau cyfredol cyngor proffesiynol, cymariaethau/defnyddio gwasanaethau ymgynghoriaeth ar y cyd â chronfeydd pensiwn eraill a'r amserlen arfaethedig i gyflwyno'r cynigion.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r trefniadau cyngor annibynnol diwygiedig a amlinellwyd ym mhwynt 4.5 yr adroddiad.

## 33 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

34 **Y DIWEDDARAF AM BWLL CYMRU GYFAN.**

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor ar gynnydd Cronfa Buddsoddi Cymru Gyfan.

Gwnaeth y pwyllgor sylw ynghylch yr amserlen bosibl i'r gronfa ddod i rym, amcangyfrif o'r costau a roddwyd gan y Llywodraeth Ganolog a chynnwys y llythyr a anfonwyd ar ran y Gweinidog dros Lywodraeth Leol.

35 **BUDDSODDI MEWN ISADEILEDD.**

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y strategaeth gaffael i fodloni dyraniad isadeiledd y gronfa.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r ymarfer caffael ar y cyd yn ogystal â'r cronfeydd pensiwn eraill a enwyd ym mhwynt 4.2 yr adroddiad i benodi rheolwr isadeiledd craidd.

36 **DYRANNU ECWITI PREIFAT AC EIDDO BYD-EANG.**

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol yr adroddiad Dyrannu Ecwiti Preifat ac Eiddo Byd-eang a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y dylid cynnal yr ymrwymiad i sicrhau dyraniad asedau'n unol â'r strategaeth fuddsoddi.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r ymrwymiadau i ecwiti preifat ac Eiddo Byd-eang fel a nodwyd ym mhwynt 5.1 yr adroddiad er mwyn cynnal dyraniadau buddsoddi.

37 **CRYNODEB BUDDSODDI.**

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad "gwybodaeth lawn" a oedd yn cynnwys y perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2016. Yn Atodiad 1 roedd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r tair blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2016.

38 **ADRODDIAD(AU) Y CYD-YMGYNGHORWYR BUDDSODDI ANNIBYNNOL.**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r diweddariad economaidd a sylwadau ar y farchnad o safbwynt yr Ymgynghorwyr Buddsoddi Annibynnol a benodwyd.

Yn Atodiad 1 roedd adroddiadau chwarterol y ddau ymgynghorydd buddsoddi annibynnol, Mr Noel Mills a Mr Valentine Furniss a ddaeth i ben ar 30 Medi 2016.

Hefyd, dosbarthodd Mr Furniss y ffurflenni mynegai a symudiadau arian cyfredol o 30 Medi tan fis Rhagfyr 2016.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i bob ymgynghorydd ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys pob adroddiad gan y pwyllgor a diolchwyd i'r Ymgynghorwyr Annibynnol am eu hadroddiadau.

## 39 CYFLWYNIADAU.

1) Gwnaed cyflwyniad ar y cyd gan James Lerner a Sian Roberts, Partners Group – Eiddo Byd-eang
2) Gwnaed cyflwyniad ar y cyd gan Graeme Rutter, Lyndon Bolton a Naomi Green, Schroders – Eiddo'r DU.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniadau ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniadau a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.20 pm

**CADEIRYDD**